ADRODDIAD, DOGFENNU

# Awdurdod Cyllid Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022 hyd 2023

Ein gweithgareddau perfformiad, ariannol a llywodraethiant yn Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Trosolwg y Cadeirydd

Adroddiad ar Berfformiad: Trosolwg y Prif Weithredwr

Amdanom ni

Crynodeb o berfformiad

Dadansoddiad o berfformiad

Ein hadolygiad o'n siarter

Rheolwyr Awdurdod Cyllid Cymru

Adroddiad ariannol

Adroddiad Atebolrwydd

Datganiad llywodraethu

Adroddiadau cydnabyddiaeth ariannol a phobl

Adroddiad archwilio – Cyfrifon adnoddau

Cyfrifon adnoddau

Adroddiad archwilio – Datganiad treth

Datganiad treth



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am hawlfraint.

## Geirfa

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Trosolwg y Cadeirydd



Rwy'n falch iawn o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022 hyd 23.

Deuthum yn Gadeirydd ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn a hyd yn oed yn yr amser byr hwnnw rwyf wedi cael fy synnu gan faint o newid rydym wedi'i weld fel sefydliad ac yn yr economi’n ehangach. Mae ymrwymiad a gwaith caled holl dimau ACC hefyd wedi creu argraff ddofn arnaf mewn tirwedd sy'n newid yn barhaus. Diolch i'm rhagflaenydd, Kathryn Bishop, mae ACC ar seiliau cadarn. Yn sgil arweinyddiaeth Kathryn, datblygodd ACC i fod yn sefydliad arloesol, cydweithredol, a charedig. Roeddwn i’n awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod ei chyfraniad fel ein Cadeirydd cyntaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni fyfyrio a dathlu'r cynnydd a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn ein helpu i ystyried rhai o'r cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau. Rwy’n edrych ymlaen at fod yn rhan o lwyddiant parhaus ACC dros y flwyddyn sydd i ddod.

**Ruth Glazzard**
**Cadeirydd ACC**

## Adroddiad ar Berfformiad: Trosolwg y Prif Weithredwr



Ar ddiwedd 2022 hyd 2023 fe wnaethom basio’r garreg filltir o 5 mlynedd. Mae'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

anodd credu ein bod wedi bod yn gweithredu am gyhyd! 2022 hyd 2023 hefyd oedd y flwyddyn gyntaf o gyflawni ein cynllun corfforaethol newydd. Mae'r 2 beth yma'n arwydd ein bod yn aeddfedu fel sefydliad; yn sefydlog, ac yn dal i esblygu a gweithio ar bethau newydd.

Wrth i ni symud ymlaen o COVID-19, mae ein cyd-destun wedi parhau i fod yn heriol mewn ffyrdd annisgwyl. Mae'r argyfwng costau byw wedi ei gwneud yn bwysicach nag erioed i ni fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill. A fel ceidwaid arian cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn parhau i reoli ein cyllidebau'n effeithiol. Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi rheoli ein cyllideb o fewn llai nag 1% o danwariant o'n dyraniad y cytunwyd arno y llynedd, sef ein perfformiad gorau hyd yma. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i'n proses ddyledion, wedi darparu gwell cefnogaeth i'r rhai sydd mewn dyled, ac wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o atal dyled rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'n wych gweld bod ein pobl yn dal i deimlo bod ACC yn lle da i weithio, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ein bod yn dal i fod yn un o'r 3 sefydliad sydd â'r sgôr uchaf yn Arolwg Pobl Gwasanaeth Sifil y DU.

Rydym yn dechrau o sefyllfa o ymddiriedaeth, ac yn cydweithio â threthdalwyr ac asiantau ar draws Treth Trafodiadau Tir (TTT) a Treth Gwarediadau Tir (TGT). Mae'r cymorth rydym yn ei roi, a'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'n systemau a'n prosesau i gyd yn helpu i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei thalu, y tro cyntaf. Allwn ni ddim gwneud i'r system weithio'n effeithiol ar ein pen ein hunain a dyna pam ein bod ni mor falch o weld cynnydd yn y defnydd o'n gwasanaeth opiniwn treth eleni. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad hwn â threthdalwyr ac asiantau sy'n dod â'n hegwyddor 'Cadarnhau' yn fyw.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein prosiect profi a dysgu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y defnydd o'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi TGT. Rydym wedi cyrraedd cerrig milltir sylweddol eleni, gan gynnwys codi a chasglu treth o'n hachosion cyntaf, a phob un wedi'i anelu at newid ymddygiad ynghylch gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn a dysgu mwy amdanom ni. Rwy’n edrych ymlaen at 2023 hyd 2024, wrth i ni barhau i ddarparu system dreth deg i Gymru a chefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu trethi a gwasanaethau refeniw newydd.

**Dyfed Alsop,**
**Prif Weithredwr ACC**

# Amdanom ni

Rydym yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd yn 2017.

Rydym yn sefydliad bychan a medrus sy’n cyflogi dros 80 o arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol, ac rydym yn rheoli 2 dreth ddatganoledig:

- Telir TTT pan fyddwch yn prynu neu'n prydlesu adeilad neu dir am fwy na phris penodol
- Telir TGT pan waredir gwastraff mewn safle tirlenwi neu rywle arall

Drwy gydweithio â threthdalwyr a’u cynrychiolwyr, gyda sefydliadau partner a’r cyhoedd, rydym yn sicrhau bod trethi'n cael eu casglu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Ein hamcanion strategol

Yr amcanion canlynol sy’n sail i’n **Cynllun Corfforaethol 2022 i 2025**:

- ei gwneud hi'n hawdd talu'r dreth gywir
- sicrhau ein bod yn deg
- datblygu ein gallu
- bod yn effeithlon

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae ein cynllun corfforaethol yn egluro sut rydym wedi gwella'n barhaus er mwyn datblygu ein mesurau llwyddiant. Mae llywio’r tensiynau sydd rhwng ein 4 amcan yn cael ei gefnogi gan ein ffordd Gymreig o drethu, a hynny mewn partneriaeth, ac er budd pobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol.

## Ein pobl

Mae ein diwylliant cydweithredol, arloesol a charedig yn ennyn lefelau uchel o ymgysylltu, o ddysgu parhaus ac o gynhwysiant. Mae cael pobl alluog sy’n mwynhau eu gwaith yn arwain at ragoriaeth yn ein gwasanaethau o ddydd i ddydd ac yn creu atebion sydd yn addas ar gyfer y dyfodol. Trwy weithio gyda'n gilydd fel gweithwyr proffesiynol sydd ag amrywiaeth o sgiliau gwahanol, rydym mewn sefyllfa wych i gyflawni amcanion beiddgar ac uchelgeisiol er budd ein rhanddeiliaid.

## Ein dull: cydweithio

Mae defnyddio dull sy’n cael ei arwain gan bartneriaethau yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn casglu ac yn rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae ‘Ein Dull’ gweithredu yn ffordd Gymreig o drin treth. Dyma beth sy’n llywio popeth a wnawn.

Drwy gydweithio’n agored gyda'n holl randdeiliaid rydym yn sicrhau bod trethi'n cael eu casglu a'u rheoli mewn ffordd sy'n gefnogol ac yn deg ac sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae ein hamcanion ac Ein Dull yn ymgorffori ysbryd ac ymdeimlad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb o berfformiad

## Crynodeb o berfformiad ACC 2022 i 2023

| Dangosydd perfformiad | Amcan | Targed/Nod 2025 | Perfformiad 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| Barn pobl am y profiad o ddelio gyda ni | Hawdd<br><br>Teg<br><br>Medrus | Bod cymaint o bobl ag sy’n bosibl yn ei chael hi'n hawdd defnyddio ein gwasanaethau | Mae ychydig o dan 92% o bobl yn ei chael hi’n hawdd defnyddio ein gwasanaethau. |
| Cefnogi pobl i gael eu trethi'n gywir | Hawdd<br><br>Teg<br><br>Effeithlon | Bod pobl yn cael eu trethi'n gywir | Roedd bron i 98% o'r trafodiadau yn gywir y tro cyntaf, gostyngiad bychan o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. |
| Lleihau'r posibilrwydd o risgiau treth | Hawdd<br><br>Teg<br><br>Effeithlon | Lleihau pob risg treth yn unigol | Bu gostyngiad yn nifer yr achosion risg treth yn ystod y flwyddyn ariannol, gyda gostyngiad sylweddol o'r brig a welwyd ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. |
| Amseroldeb:<br><br>a) Ffeilio<br><br>b) Talu<br><br>c) Ad-daliadau | Effeithlon<br><br>Haws<br><br>Teg | a) 98%<br><br>b) 98%<br><br>(c) 95% (100%) wedi'u prosesu mewn 30 (60) diwrnod neu lai | a) Bron i 99%, uwchlaw’r targed ar gyfer y flwyddyn gyfan, gyda chynnydd bychan tua’r diwedd.<br><br>b) Bron i 97%, cynnydd ffiniol dros y flwyddyn ariannol, gan agosáu at yr ystod darged, ac yn uwch na’r flwyddyn |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Dangosydd perfformiad | Amcan | Targed/Nod 2025 | Perfformiad 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| | | | flaenorol ar y cyfan.<br><br>c) Cafodd dros 95% o achosion eu prosesu o fewn 30 diwrnod, ac mae’r ffigwr wedi bod yn agos i, neu’n uwch na, 95% dros y 2 flynedd ariannol ddiwethaf, gan amlygu bod sefydlogrwydd hirdymor o ran y mesur hwn.<br><br>Cafodd dros 99% o achosion eu prosesu o fewn 60 diwrnod, gyda chynnydd bychan dros y flwyddyn gyfan. |
| Amseroldeb o ran trin dyledion | Teg | 90% o ddyledion wedi’u talu o fewn 30 diwrnod i'w creu, a 98% o fewn 90 diwrnod | Talwyd bron i 91% o'r trafodiadau a oedd mewn dyled o fewn 30 diwrnod iddynt fynd i ddyled, gan amrywio o gwmpas yr ystod darged yn ystod y flwyddyn.<br><br>Talwyd bron i 97% o'r trafodiadau a aeth yn ddyled o fewn 90 diwrnod. |
| Taliadau yn gywir y tro cyntaf | Hawdd | Cynyddu’r nifer o daliadau a wneir yn gywir y tro cyntaf | Roedd bron i 95% o'r taliadau a wnaed yn gywir y tro cyntaf, ychydig yn uwch dros y 2 flynedd ddiwethaf. |
| Y graddau y ceir awtomeiddio | Effeithlon | 98% o'r trafodiadau wedi’u cwblhau heb fod angen ymyrraeth â llaw | Nid oedd angen ymyrraeth ar dros 92% o'n trafodiadau, gyda thuedd gadarnhaol drwy'r flwyddyn. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Dangosydd perfformiad | Amcan | Targed/Nod 2025 | Perfformiad 2022-2023 |
|---|---|---|---|
| Sut mae ein pobl yn teimlo | Medrus | Yn y 25% uchaf o ran sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil o ran ymgysylltiad | Roeddem yn y 3 uchaf o ran sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr yn 2022. |
| Ein cymysgedd sgiliau | Medrus | Cynnal ehangder ein proffesiynau a datblygu ein sgiliau Cymraeg | Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi pobl o 14 o wahanol broffesiynau.<br><br>Mae 80% yn gallu rhywfaint o Gymraeg o leiaf.<br><br>14% yn rhugl neu'n agos at fod yn rhugl. |
| Amrywiaeth | Medrus | Bod yn sefydliad cynhwysol sy'n gwerthfawrogi pobl ac yn eu cynnwys, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau | Yn ein Harolwg Pobl blynyddol, dywedodd 93% o'n pobl ein bod yn sefydliad teg a chynhwysol - y sgôr uchaf a gofnodwyd yn 2022 ar gyfer y Gwasanaeth Sifil. |

Rydym wedi parhau i harneisio ein ffyrdd llwyddiannus o weithio trwy gynnal lefelau ymgysylltu uchel â’n gweithwyr, trwy hyrwyddo triniaeth gyfartal a thrwy gefnogi ein pobl i fod yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol, fel yr eglurir yn ein dadansoddiad o berfformiad ac yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a phobl.

Fel y nodwyd yn ein **cynllun corfforaethol**, rydym yn adolygu trefniadau gweithio hybrid, yn datblygu ein mesurau o amgylch sgiliau, ac yn parhau i ddysgu, gwneud penderfyniadau ystyriol a dod yn fwy cynaliadwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae ein **datganiad data TTT blynyddol** yn cynnwys y data manwl (cyfredol a hanesyddol) ar gyfer y dangosyddion mwy cymhleth.

## Dadansoddiad o berfformiad

Eleni, roedd nifer y trafodiadau a oedd yn ddarostyngedig i’r DTT yn is na’r cyfartaledd, gydag ychydig llai na 60,000 ohonynt. Mae hyn yn adlewyrchu’r gostyngiad a welwyd yng ngwerthiant tai yn chwarter olaf y flwyddyn, yn dilyn y cynnydd sylweddol a welwyd y flwyddyn flaenorol, wrth i'r farchnad adfer yn sgil pandemig COVID-19.

O ran TGT, gwaredwyd dros 1 miliwn tunnell o wastraff mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig yng Nghymru, ychydig mwy na’r flwyddyn flaenorol. Cafodd ychydig llai na hanner hyn ei waredu ar gyfradd is y DGT, gyda thraean arall wedi’i waredu ar y gyfradd safonol, a’r gweddill wedi’i waredu o dan rhyw fath o ryddhad.

Rydym yn credu bod y rhan fwyaf o drethdalwyr eisiau talu'r swm cywir ar yr adeg iawn. Ein dull yw cydweithio â threthdalwyr ac asiantau er mwyn creu amgylchedd sy’n galluogi pobl i wneud hyn.

Eleni, fe wnaethom adolygu ein dull o ymdrin â risg treth. Cafwyd gwybodaeth o’r adolygiad sydd wedi arwain at wella effeithlonrwydd, a nodwyd meysydd yr ydym yn awyddus i’w datblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf. Casgliad yr adolygiad oedd y dylem barhau i ddilyn ein dull gweithredu.

## Buddsoddi adnoddau er mwyn lliniaru risg treth

Mae ein gwaith i liniaru risg treth yn darparu cymorth ac addysg sy’n helpu trethdalwyr ac asiantau i gael eu trethi’n gywir ar y cynnig cyntaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roeddem yn gweld bod mwy a mwy o drethdalwyr yn dod atom yn uniongyrchol ar gyfer rhyddhad anheddau lluosog (MDR) yn hytrach na defnyddio asiant. Felly bu i ni ddiwygio’r iaith yn ein ffurflenni a chynnwys testun cymorth er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.

Gan fod MDR yn faes lle'r oedd pobl yn gwneud camgymeriadau, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol er mwyn lliniaru hyn:

- newid y system dreth a'r ffurflen diwygio MDR er mwyn gofyn mwy o gwestiynau ac i ddarparu mwy o destun cymorth. Mae hyn yn helpu trethdalwyr i asesu eu hunain er mwyn gweld a ydynt yn gymwys i gael MDR neu ddim.
- datblygu cyfrifiannell MDR er mwyn helpu trethdalwyr ac asiantau i gyfrifo treth

Mae ein cyfrifiannell rhyddhad anheddau lluosog (MDR) wedi cael ei gyrchu dros **26,000** o weithiau eleni yn barod.




Roedd tua chwarter yr hawliadau MDR yn anghywir, a hynny oherwydd nad oedd y trethdalwr yn gymwys i dderbyn MDR. Hefyd, roedd yr hawliadau hyn yn anodd eu gwirio oherwydd diffyg gwybodaeth, ac yn aml roedd angen mwy o wybodaeth er mwyn gwirio'r hawliad. Roedd hyn yn faich ar y trethdalwr ac arnom ninnau. Bellach, llai nag 1 rhan o 5 o hawliadau a diwygiadau MDR sydd yn anghywir, ac nid oes angen i ni fynd yn ôl ac ymlaen er mwyn cael mwy o wybodaeth pan fyddwn yn gwneud gwiriadau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws ac yn fwy effeithlon i drethdalwyr ac i ninnau hefyd.

Rydym wedi parhau i feithrin ein gallu o fewn meysydd risg treth eraill ein pobl,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ein trethdalwyr a’n hasiantau. Er enghraifft, rydym wedi cynhyrchu canllawiau cyflym, wedi mireinio ein harweiniad ac wedi rhoi mwy o gymorth testun yn ein ffurflenni a'n ffurflenni treth er mwyn cyfeirio trethdalwyr ac asiantau yn well.

Rydym yn siomedig na lwyddom i ailgychwyn gweminarau a'r fforymau treth eleni fel yr oeddem wedi gobeithio, a hynny oherwydd adnoddau. Fodd bynnag, gwnaethom sefydlu 6 gweminar ym mis Ebrill 2023. Byddwn yn defnyddio'r rhain i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr o ran pa bynciau eraill yr hoffent gael hyfforddiant ynddynt. Rydym yn edrych ymlaen at gael cydweithio a chefnogi trethdalwyr ac asiantau eto yn y modd hwn.

Mae ein desg gymorth ddwyieithog yn parhau i gynnig gwasanaeth lefel uchel i gwsmeriaid, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chyfarwyddyd yn hyderus er mwyn cyfeirio cwsmeriaid at yr offer a'r arweiniad perthnasol. Pan fo trafodiadau angen rhagor o gyngor technegol, mae llwybrau uwchgyfeirio amlwg tuag at arbenigwyr treth. Bu 61 uwchgyfeiriad o'r ddesg gymorth at arbenigwyr technegol TTT rhwng mis Tachwedd 2022 (pan ddechreuom gasglu'r data hwn) ac Ebrill 2023.

Rydym yn falch o fod wedi rhoi sawl opiniwn treth yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn croesawu'r defnydd o'r gwasanaeth hwn. Mae'r defnydd hwn o'n desg gymorth a'n gwasanaeth opiniwn treth yn enghraifft dda o drethdalwyr ac asiantau yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cael treth yn gywir.

Roedd bron i **98%** o'r trafodiadau TTT yn gywir y tro cyntaf, a chyflawnwyd hynny trwy gydweithio â threthdalwyr ac asiantau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Defnyddir dull tebyg gyda'r DGT. Ond oherwydd bod llai o drethdalwyr, ac oherwydd natur gylchol ein perthynas â nhw, rydym yn neilltuo Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) pwrpasol i weithio'n agos gyda'r Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi. Mae ein partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn golygu ein bod ni a'r Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi yn derbyn y cymorth gorau o ran gwastraff arbenigol yn ogystal â'u harbenigedd amgylcheddol.

Rydym yn falch iawn o fod wedi ailddechrau ein hymweliadau safle ar gyfer Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi eleni gan nad oeddem wedi gallu gwneud hyn yn ystod COVID-19. Mae'r rhain wedi llwyddo i dynnu sylw at broblemau posibl ac wedi caniatáu i ni fynd i'r afael â nhw a'u datrys gyda'r Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi yn y fan a'r lle.

Dywedodd un o'n Rheolwyr Cysylltiadau Cwsmeriaid:

> “ "Mae wedi bod yn wych cael mynd yn ôl allan eto i glywed y diweddaraf, i weld beth sydd wedi bod yn digwydd gyda'r safle, ac i ddod i adnabod personél newydd. Mae hyn oll wedi ein helpu i ddeall y problemau posib ac mae wedi ailfywiogi ein perthynas gyda'r Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi". ”

## Gwasanaethau cyfrifo – cywir y tro cyntaf

Dim ond un rhan o'r darlun yw cael trafodiadau ariannol yn gywir y tro cyntaf. I gwblhau'r llun, mae angen cyflwyno'r ffurflen dreth ar yr adeg gywir a thalu'r dreth ddyledus ar yr adeg gywir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae prydlondeb ffeilio wedi aros yn uwch na'r targed o **98%** trwy gydol y flwyddyn hon, gyda bron i **99%** o ffurflenni treth wedi'u derbyn o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd.

Mae amseroldeb taliadau wedi aros yn agos at y targed o 98%, er ychydig islaw'r targed ar y cyfan, ond gyda thuedd ar i fyny o fis Mehefin 2022. Ar gyfartaledd, cafodd bron i 97% o'r ffurflenni treth eleni eu talu o fewn 30 diwrnod.

Yn unol â'n cynllun corfforaethol, rydym hefyd wedi datblygu dangosydd newydd ar gyfer mesur ein nod o gynyddu'r nifer o daliadau sy'n gywir y tro cyntaf.

Mae'r dangosydd hwn yn mesur pa gyfran o'r ffurflenni TTT sydd wedi'u setlo ac a oedd ond angen taliad.


Mae Siart 1 yn cyflwyno hyn fel canran y trafodiadau na thalwyd yn gywir y tro cyntaf, gan ei bod yn haws gweld yr amrywiad fel hyn. Mae'n dangos tuedd tuag at i lawr dros 2021-2022 a 2022-2023 o ran trafodiadau sydd ddim yn cael eu talu'n gywir, gyda chyfartaledd o ychydig dros 5% ddim wedi'u setlo mewn un taliad yn ystod 2022-2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Siart 1: Canran y trafodiadau na thalwyd yn gywir y tro cyntaf, yn ôl y mis y daeth y trafodiad i rym**




# Dyled

Pan na dderbynnir taliad TTT o fewn 30 diwrnod i'r trafodiad, bydd yn troi'n ddyled. Yn ystod 2022 i 2023, casglwyd ychydig dros 90% o'r dyledion hyn yn llwyddiannus o fewn 30 diwrnod arall, gyda'r ffigwr yn uwch na 90% mewn 7 o'r 12 mis. Cafodd bron i 97% o'r dyledion hyn eu casglu o fewn 90 diwrnod iddynt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddod yn ddyled.

O bryd i'w gilydd, disgynnodd y gyfradd gasglu fisol yn is na 90%, ac yn is na 80% ar un achlysur, a hynny oherwydd ataliwyd y prosesau casglu dros y Nadolig. Dychwelodd perfformiad at lefelau mwy arferol ym mis Ionawr.

Yn gyffredinol, gostyngodd nifer yr achosion o ddyled y mae’r dangosydd yma’n mesur yn ei erbyn tua diwedd y flwyddyn.

Mae hyn yn dilyn amseriad cyflwyno ein gwelliannau i osgoi achosion yn mynd i ddyled yn y lle cyntaf. Er y dylid croesawu’r datblygiad hwn, mae’n debygol y bydd yn arwain at fwy o amrywiad yn nhueddiadau'r dyfodol oherwydd effeithiau nifer fach.

Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi ymrwymo adnoddau sylweddol er mwyn:

- gwella'r broses ddyledion
- darparu gwell cefnogaeth i'r trethdalwyr hynny sydd mewn dyled
- dod o hyd i ffyrdd o atal dyledion rhag digwydd yn y lle cyntaf

Er nad oedd canran fawr o’n trethdalwyr mewn dyled, roeddem yn awyddus i helpu trethdalwyr i osgoi mynd i ddyled trwy:

- fapio'r broses ddyledion a nodi pa brosesau a y gellid eu symleiddio er mwyn gwella pethau ar gyfer y trethdalwr
- parhau i gydnabod lle mae angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol ar drethdalwyr bregus, a defnyddio hyn i addasu ein harddull cyfathrebu i sicrhau eu bod yn deall y sefyllfa a beth oedd angen iddynt ei wneud
- sefydlu prosesau clir i'w wneud yn haws i arwain trethdalwyr trwy’r broses ddyledion
- awtomeiddio sut yr ydym yn cyfrifo llog ar ddyledion. Mae hyn yn darparu ffigwr dyled sy’n gywir a’n gyfredol i drethdalwyr a’u hasiantau trwy wasgu botwm.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Enghreifftiau o sut rydym wedi gwella ein proses ddyledion

Ar ôl darganfod y gallai nifer o’r llythyron a ddanfonwyd i drethdalwyr fod wedi achosi dryswch, gwnaethom ddiwygio ein llythyrau a'n prosesau. Er enghraifft, i ddanfon un llythyr i bob cartref (os ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad) yn hytrach na danfon sawl llythyr ynghylch y ddyled at nifer o wahanol bobl.

Dechreuon ni alw’r trethdalwr yn gynharach (ar ddiwrnod 31, pan fo’r atebolrwydd treth yn troi’n ddyled). Mae hyn yn galluogi trethdalwyr i dalu ac i leihau'r llog sy'n ddyledus. Ers cyflwyno hyn rydym wedi gweld bod trethdalwyr wedi bod yn talu'n gynharach yn y broses.

Cafodd llythyr 'diwrnod 22' ei dreialu hefyd gyda’r nod o atal dyled. Gwelwyd bod hyn yn annog trethdalwyr i dalu ar amser, o fewn 30 niwrnod. Ein nod yw cyflwyno hyn dros 2023 i 2024.

## Amseroldeb ad-daliadau ACC

Ochr arall y geiniog i ddyled yw pa mor gyflym yr ydym yn gwneud ad-daliadau.

### Ad-daliadau cyfradd uwch

Pan nad yw eiddo a brynir gennych yn dod yn brif breswylfa i chi yn syth, rydych yn talu cyfradd uwch o TTT. Os byddwch yn gwerthu eich prif breswylfa flaenorol o fewn 3 blynedd ac mae’r eiddo newydd yn dod yn brif breswylfa i chi, fel arfer gallech hawlio ad-daliad o elfen cyfraddau uwch y dreth a dalwyd. Ein nod yw lleihau faint o amser y mae'n ei gymryd i wneud ad-daliadau ar ôl eu cymeradwyo.

Eleni gwnaethom dalu dros 95% o’r ad-daliadau cyfradd uwch o fewn 30

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diwrnod o dderbyn yr hawliad. Mae hyn o fewn ein hystod darged o 95% i 100%. Dros y cyfnod hwnnw, yr amser a dreuliwyd ar gyfartaledd oedd 7 diwrnod.

Gostyngodd y perfformiad ychydig yn is na 95% mewn 3 o'r 12 mis, ond mae'n werth nodi bod o leiaf 98% o achosion wedi'u talu o fewn 60 diwrnod ar gyfer pob un o'r 12 mis. Yn y rhan fwyaf o achosion lle na chafodd y targed ei gyrraedd, roedd hynny'n aml oherwydd ein bod yn aros am ragor o wybodaeth gan y trethdalwr. Oherwydd hyn, credwn fod yr agwedd hon ar ein gwasanaeth ad-dalu yn gweithio'n effeithlon ac yn deg.

## Ad-daliadau eraill

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022 hyd 2025 yn cyfeirio at berfformiad ar bob ad-daliad, nid y rhai sy'n gysylltiedig â chyfraddau uwch yn unig. Er mai'r cyfraddau uwch sy'n cyfrif am oddeutu 80% o'r holl ad-daliadau, mae'r 20% arall o achosion yn bwysig i ni hefyd.

Mae'r 20% o ad-daliadau yn amrywiol iawn. Er enghraifft:

- gellir ad-dalu treth os darganfyddir gwall sy'n arwain at leihau'r dreth ar drafodiad
- weithiau bydd taliad dwbl am drafodiad
- weithiau derbynnir arian a oedd i fod ar gyfer corff arall, fel CThEM

O ganlyniad, rydym yn agor achosion o wahanol fathau er mwyn ymdrin ag ad-daliadau. Weithiau bydd sawl ad-daliad gwahanol i un trethdalwr, ac mae angen i ni agor achos ar gyfer pob ad-daliad. Ar adegau eraill, bydd llawer o wahanol achosion ar agor ar gyfer un trafodiad penodol, a gallent ymwneud â phethau y mae angen i ni archwilio, nid yn unig ad-daliadau.

Mae hyn yn ei wneud yn anodd iawn gwirio'r amser a gymerir i wneud yr ad-daliadau unigol hyn. Nid yw'r her yma'n bodoli ar gyfer ad-daliadau cyfradd uwch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan mai un math o achos sydd, a hynny'n caniatáu i ni uno'r data.

Gallwn greu sampl o drafodiadau sydd ag un achos ac un ad-daliad yn bresennol. Gellid defnyddio hyn i fesur amseroedd cyfartalog ar gyfer pob achos o ad-dalu sydd ddim yn un cyfradd uwch.

Gwnaethom hyn ac mae ein sampl yn cynnwys tua 2 ran o 3 o'r ad-daliadau, ac o leiaf 40% o unrhyw fis penodol. Felly mae'n addas ar gyfer monitro mewnol er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn effeithlon ac yn deg yn ein dull. Gyda hyn rydym wedi cynnwys adolygiad o'n cwynion i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r disgwyliadau ynghylch amserau ad-dalu. Er tryloywder, rydym wedi cynnwys y sampl yn **ein hatodiad**.

O ystyried y duedd yn y sampl hon a bod rhai mathau o achosion yn gallu bod yn symlach nag eraill, a'u bod yn digwydd mewn sypiau ar wahanol adegau, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid yn y dangosydd hwn o fis i fis yn gynrychiadol. Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai cyhoeddi cymhariaeth o'r data hwn yn erbyn targed yn ddefnyddiol, ac y byddai'n digwydd ar draul ein nod i gadw amseroedd ad-dalu'n isel ar gyfer pob math o achos.

O ganlyniad, rydym yn symud oddi wrth ymestyn y targed er mwyn cwmpasu'r achosion ad-daliadau hynny nad ydynt yn rhai cyfradd uwch. Yn hytrach, byddwn yn defnyddio'r sampl data ar gyfer achosion ad-daliadau nad ydynt ar gyfradd uwch i ddarparu dangosydd er mwyn llywio ein penderfyniadau mewnol.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth fanwl am yr ad-daliadau a wneir bob mis wrth ystyried y mesur hwn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a thegwch parhaus.

## Ein dull i reoli risg treth

Rydym yn gweithio o safle o ymddiriedaeth ac yn cydweithio â threthdalwyr ac asiantau i geisio atal risg treth ar draws y DTT a'r DGT. Ond rydym hefyd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cydnabod y bydd rhai trethdalwyr ac asiantau yn gwneud camgymeriadau. Ac efallai y bydd ambell un yn ceisio efadu neu osgoi talu'r swm cywir o dreth.

Eleni, rydym wedi gweithio i wella sut rydym yn:

- adnabod ac yn asesu risg treth, ac wedi gwneud cynnydd da gyda'n prif broffiliau risg treth ar gyfer TTT
- nodi risgiau newydd posibl y byddwn yn dechrau gweithio arnynt ac yn eu datblygu dros 2023 i 2024
- cynnal dros 40 o adolygiadau annibynnol. Mae’r rhain yn adolygiadau o benderfyniadau treth rydym wedi eu gwneud ar gosbau ac asesiadau sy’n cael eu ceisio gan y trethdalwr o dan ein proses adolygu ac apelio.

Canlyniad hyn oedd cadarnhau ein penderfyniad ar dros 25 o achosion, amrywio ein penderfyniad ar rai achosion a thynnu'r gosb yn ôl mewn 11 achos ar ôl i'r trethdalwr ddarparu gwybodaeth newydd i'r adolygwr.

Eleni rydym wedi gweld 4 achos yn dod i wrandawiad terfynol yn y tribiwnlys treth. Roedd hwn yn gam cadarnhaol wrth brofi'r ddeddfwriaeth. Rhoddodd well dealltwriaeth i ni o'n prosesau ac mae'n ein helpu i greu system dreth decach. Rydym wedi cael llwyddiant mewn tribiwnlys, ac rydym hefyd wedi gweld achos lle cafodd rhan o apêl y trethdalwr ei gadarnhau gan y tribiwnlys.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y tribiwnlys. Dywedodd un barnwr fod yr hysbysiad cau yn eglur iawn, a’i fod yn disgrifio pob cosb yn benodol ac yn glir yn ogystal â’r hyn yr oedd angen i’r trethdalwr ei wneud. Aeth y barnwr ymlaen i ddweud fod ein llwybrau archwilio yn ystod yr ymchwiliad yn fanwl iawn, a bod pob agwedd o'r achos wedi'i gofnodi'n dda.

Rydyn ni wedi dysgu o'n profiadau yn y tribiwnlys ac wedi gwella ein prosesau. Er enghraifft, erbyn hyn rydym yn gofyn yn gynharach os rydym yn ystyried esgus rhesymol mewn achosion cosb.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwella sut yr ydym yn adnabod ac asesu risg treth

Rydym yn defnyddio ein data yn fwy effeithiol wrth ddatblygu a mireinio nodweddion o ran y risgiau treth a welwn. Mae hyn yn ei wneud yn haws ac yn fwy effeithlon i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei dalu.

O ran TGT, rydym wedi gwella ein dealltwriaeth o'r data a gesglir ar y ffurflen dreth newydd a gyflwynwyd y llynedd. Rydym wedi defnyddio'r data er mwyn gwella sut mae risgiau'n cael eu hadnabod a sut mae cwsmeriaid yn symud rhwng safleoedd tirlenwi.

O ran TTT, rydym wedi adnabod dros 600 o achosion sydd yn ein proffiliau risg treth. Mae hyn wedi amrywio yn ôl chwarter, fel y dangosir yn y siart isod.

Yn siart 2 isod, mae'r llinell oren yn cynrychioli cyfanswm yr achosion sydd mewn perygl o fewn y proffil hwn, a'r llinell goch yn dangos y niferoedd o fewn y cyfanswm lle mae'r risg yn fwy pendant, cânt eu mesur ar yr echel chwith. Mae'r bariau'n dangos y symiau cyfatebol o dreth mewn perygl, cânt eu mesur ar yr echel dde. Mae'r gwahaniaeth rhwng y 2 linell a chyfran oren y bariau yn cynrychioli achosion lle nad yw'r risg mor sicr.


Eleni, buom yn ymdrechu i gael mwy o sicrwydd ynghylch risg treth trwy newid ein proses risgio. Gwnaethom hyn drwy weithio gyda threthdalwyr ac asiantau i gasglu gwybodaeth ymlaen llaw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r trafodiad ac i asesu'r risg. Mae hyn wedi arwain at agor ymholiadau lle mae gennym fwy o sicrwydd bod risg neu gamgymeriad wedi digwydd. Mae hyn yn lleihau'r baich arnom ni, ar asiantau ac ar drethdalwyr. Mae'r siart yn dangos y llwyddiant hwn, yn enwedig yn 2 chwarter olaf 2022-2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Siart 2: Nifer y trafodiadau a chyfanswm y dreth yn risgiau TTT 1 i 5




## Gwneud cynnydd da gyda'n prif broffiliau risg treth

O ystyried nifer y trafodiadau TTT a gyflwynwyd eleni, mae'r lefel gyffredinol o risg ar draws ein prif broffiliau risg treth TTT wedi gostwng ychydig o'i gymharu


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

â'r llynedd. Fodd bynnag, mae amrywiad diddorol i'w weld o chwarter i chwarter a rhywfaint o gymhlethdod wrth ystyried y darlun cyfan, fel y nodir isod.

Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn ein prif risgiau treth. Mae'r siart uchod yn dangos, ddiwedd y llynedd, y bu cynnydd amlwg mewn achosion risg uchel a gyrhaeddodd frig hanesyddol, mae'r cynnydd gwirioneddol mewn risg yn egluro hyn yn rhannol, ynghyd â'r cynnydd yn y nifer o drafodiadau wrth i'r farchnad dai adfer o effeithiau COVID-19. Ond yn 2 chwarter cyntaf eleni, gostyngodd lefel y risg o'r brig hwnnw. Ni fu gostyngiad yn chwarter 3, a bu gostyngiad sylweddol yn y pedwerydd chwarter i gyrraedd yr isafbwynt 2 flynedd.

Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o'r gostyngiad hwn wedi digwydd oherwydd y gostyngiad cyffredinol mewn trafodiadau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig yn chwarter 4. Er hynny, mae'r gostyngiad dros y flwyddyn yn parhau i fod yn sylweddol o'i gymharu â thrafodiadau.

Mae'r gostyngiad hwn mewn risg treth yn adlewyrchu'r gwaith rydym wedi'i wneud i gefnogi ein trethdalwyr i gael y dreth yn gywir, yn ogystal â gwaith asiantau a threthdalwyr i sicrhau bod eu materion treth yn gywir. Drwy weithio gyda'n gilydd mae bron i 98% yn gywir ar y cynnig cyntaf.

Mae'r ffigwr 'cywir y tro cyntaf' ychydig yn is na ffigwr y llynedd, sef 98.2%. Roedd y ffigwr hwn yn is oherwydd eleni gwnaethom adnabod a chysylltu â bron i ddwywaith mwy o drethdalwyr nag y byddwn mewn blwyddyn arferol er mwyn diwygio eu ffurflenni treth tuag i lawr. Canfu'r gwaith hwn bod rhai trethdalwyr wedi gordalu DTT mewn camgymeriad, yn dilyn newidiadau i'r cyfraddau yn Hydref 2022. Dyma enghraifft ohonom yn ymdrechu i gael y swm cywir o dreth (hyd yn oed os yw hynny'n golygu nad yw'n gywir y tro cyntaf). Mae hyn yn cyd-fynd ag ein dull o drethu.

Mae'r data ar gyfer sawl proffil risg wedi'i gynnwys yn y siart yn yr adran flaenorol sy'n dangos cyfanswm y dreth sydd mewn perygl. Mae cyfres debyg yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bodoli ar gyfer yr holl risgiau treth sy'n cyfrannu, ac yma rydym yn dangos y 2 fwyaf. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau tebyg ar gyfer ein holl broffiliau allweddol mewn **atodiad i'n datganiad ystadegol blynyddol**, sy'n cwmpasu ein holl fesurau perfformiad.


Y risg fwyaf yw sut y caiff gwahanol fathau o eiddo eu trin o ran treth, a hyn sy'n cyfrif am dros hanner y cyfanswm. Er hyn, mae amrywiadau bach yn y patrymau y mae pob risg yn eu cyflwyno, fel y mae'r siart isod yn ei ddangos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3: Risg TTT 4 – triniaeth dreth gwahanol fathau o eiddo




Gan fod y risg treth hon yn gymhleth, gallai trethdalwyr ac asiantau ei chael hi'n anodd dangos y sefyllfa dreth gywir. Er mwyn gwneud pethau'n haws, rydym wedi:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- gwella ein canllawiau a diweddaru ein System Rheoli Treth
- meithrin gallu yn ein timau er mwyn iddynt roi gwell cefnogaeth i drethdalwyr ac asiantau lle bo angen
- gweithio gydag asiantau i wella eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth mewn achosion lle'r ydym wedi nodi camgymeriadau


Mae'r ail risg fwyaf yn ymwneud â rhyddhad penodol (rhyddhad a). Mae'r siart isod yn dangos sut mae hyn wedi amrywio fesul chwarter, ac er bod cwymp tebyg ar y cyfan, bu cynnydd yn chwarter 3 cyn cwymp sylweddol iawn yn chwarter 4. Mae'r ffigur ar gyfer chwarter 3 yn ddiddorol, a'r hyn sy'n bennaf gyfrifol yw'r cynnydd sylweddol mewn achosion a gyflwynwyd lle hawliwyd y rhyddhad, yn hytrach na'r risg ei hun. Ni ddigwyddodd yr un peth yn chwarter 4, gyda chyfanswm yr hawliadau i lawr, o ran achosion dilys a'r rhai â risg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Siart 4: Risg TTT 5 – mewn perthynas â rhyddhad penodol (rhyddhad a)**




Mae hyrwyddo ein hoffer a'n canllawiau wedi helpu wrth reoli a lliniaru risgiau. Pan fo ymholiadau ynghylch y meysydd hyn, mae ein desg gymorth yn sicrhau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bod gan drethdalwyr ac asiantau'r holl wybodaeth y maent ei angen i asesu'r dreth yn gywir. Mae ein desg gymorth yn gwneud hyn drwy holi a ydynt yn ymwybodol o'r help sydd ar gael a thrwy roi cyngor ar sut y gallai'r offer a'r canllawiau eu helpu. Mae Bwrdd Diweddaru Gweithredol ar ein System Rheoli Treth a gall pob trethdalwr ac asiant cofrestredig gael mynediad ato. Rydym yn diweddaru hyn mewn amser real pan welwn risg yn dod i'r amlwg, er mwyn gwybod pryd i ddarparu help ac arweiniad.

O ran TGT, rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn risgiau fel disgownt dŵr ac adfer safleoedd. Er enghraifft, eleni rydym wedi bod yn mireinio ein dull o ran y disgownt dŵr, ac rydym yn parhau i weld llwyddiant cynyddol gydag Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi yn bodloni amodau eu disgownt dŵr. Rydym yn falch o fod ar flaen y gad yn rhywfaint o'r gwaith hwn, ac rydym yn rhannu ein profiadau gydag awdurdodau treth eraill.

## Adennill treth - TTT

Adennill treth yw'r broses o adfer y diffyg pan fo hunanasesiad o dreth yn anghywir ac mae mwy o dreth yn ddyledus. Rydym yn olrhain hyn drwy ychwanegu gwerthoedd treth diwygiedig at achosion adfer treth caeedig ac yn crynhoi'r rhain fesul chwarter pan fo'r diwygiad yn cael ei wneud. Nid oes rhaid i hyn gyd-fynd â'r chwarter pan fo'r risg yn cael ei gwireddu, ac mae'n annhebygol o ddigwydd.

O bryd i'w gilydd, bydd achos risg yn arwain at ffigur treth is. Yn yr achosion hyn, rydym yn gwahanu a chofnodi'r dreth rydym yn ei dychwelyd i'r trethdalwr. Mae'r olaf yn cynnwys achosion sy'n cyd-fynd â phroffil risg lle mae'n ymddangos fel pe bai gormod o dreth yn cael ei dalu ar y cychwyn, neu lle daw gwybodaeth newydd i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad sy'n arwain at leihau'r dreth.

Yn olaf, mae rhai achosion lle mae ffurflen dreth yn cael ei chyflwyno, a daw cais yn ddiweddarach i ddiwygio'r dreth a'i lleihau. Pan ddaw'r cais am ddiwygiad i'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ffurflenni o fewn blwyddyn i'w chyflwyno gyntaf, mae'n ofynnol i ni wneud y gwelliant ac, os oes angen, holi ynghylch ei ddilysrwydd. Mae hyn yn effeithio ar ystadegau arferol ar gyfer risg treth ac adennill treth.

Pan fo hawliad am ordaliad treth yn cael ei wneud flwyddyn neu fwy ers y cyflwyniad, os nad ydym o’r farn fod yr hawliad yn ddilys, gallwn ei wrthod drwy agor ymholiad i hawliad y trethdalwr. Pan fyddwn yn gwrthod yr hawliad, ni fydd unrhyw dreth yn cael ei had-dalu. Rydym yn cyfeirio at y dreth hon fel treth a ddiogelwyd. Rydym yn mesur faint o dreth a ddiogelwyd ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gau. Mae hyn yn cefnogi ein dull o 'gwirio yn gyntaf, talu wedyn'. Mae hyn yn sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei thalu ar yr adeg gywir, gan greu system deg i bawb.


Mae Siart 5 yn dangos yr amrywiad o ran adennill a dychwelyd treth fesul chwarter, tra bod siart 6 yn dangos treth a ddiogelwyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Siart 5: Nifer a gwerth yr achosion lle cafodd TTT ei hadennill neu ei dychwelyd




Mae Siart 5 yn dangos gweithgarwch sylweddol i adfer treth dros y blynyddoedd diwethaf, gyda dros £5 miliwn wedi'i adfer ers 1 Ebrill 2019 ar draws 750 o achosion. Nid yw'n syndod bod swm y dreth a ddychwelir yn llawer llai, ond er hynny mae'n arwyddocaol ac yn bwysig yn ein nod i fod yn deg ac i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei thalu.

Mae'r proffil adennill treth dros amser yn cael ei gymhlethu gan y ffaith y gallai ffocws y proffiliau unigol amrywio o ran pa mor anodd yw hi i wneud achos am gymhwyso'r ffigur treth uwch. Er enghraifft, yn 2019-2020, roedd y rhan fwyaf o'r


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gweithgaredd yn ymwneud â risgiau symlach a gafodd eu cau wedyn. Ers hynny, mae llawer o'r achosion adennill wedi bod yn fwy cymhleth. Er gwaethaf hyn, roedd cyfanswm yr adferiad treth eleni bron i £1.2 miliwn, dros 170 o achosion.

### Siart 6: Nifer a gwerth yr achosion lle diogelwyd TTT




Mae Siart 6 yn dangos y bu mwy o weithgarwch i ddiogelu trethi eleni, gyda dros 40 o achosion wedi’u cau, gan ddiogelu bron i £350,000 o dreth. Mae llawer o'r achosion yn ymwneud â honiadau bod eiddo yn adfeiliedig pan y’i prynwyd, ac os profir hynny byddai’n caniatáu i'r cyfraddau amhreswyl rhatach gael eu cymhwyso ar yr eiddo preswyl. Weithiau, bydd rhesymau llai penodol eraill hefyd


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn berthnasol.

Rydym yn defnyddio proses 'gwirio gyntaf, talu wedyn'. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau dilysrwydd yr hawliad drwy gynnal diwydrwydd dyladwy a thrwy adolygu'r wybodaeth a dderbynnir fel rhan o'r hawliad. Byddwn ond yn ad-dalu treth pan fyddwn yn fodlon bod yr hawliad yn ddilys. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn diogelu treth ac nad oes rhaid i ni adennill treth lle gwelwn yn ddiweddarach fod yr hawliad yn anghywir.

Rydym wedi diweddaru ein prosesau risg er mwyn cael mwy o sicrwydd ynghylch lefel risg achosion sy'n cael eu canlyn er mwyn adfer trethi. Gall adfer trethi fod yn gymhleth yn aml, ond mae’r canlyniadau yn cael eu defnyddio i:

- fireinio proffiliau
- deall y risg a'r ymddygiad
- creu system dreth sy’n deg i bob trethdalwr

Nid ydym yn goddef osgoi nac efadu o gwbl. Mae cosbau anghywirdeb yn cefnogi'r dull hwn, lle penderfynir bod yr ymddygiad yn gamgymeriad oherwydd diffyg gofal rhesymol, ei fod yn ddiofal neu'n fwriadol. Mae swm y gosb yn dibynnu ar ymddygiad y trethdalwr a'r asiantau. Gellir lliniaru’r gosb trwy ein helpu gyda'r ymholiad, trwy ddweud wrthym beth sydd wedi digwydd a thrwy gynnig y wybodaeth yr ydym ei angen i sicrhau bod y dreth gywir yn cael ei thalu.

## Adennill treth - TGT

Mae ein proses hawlio wedi diogelu dros £1 miliwn mewn treth, ac rydym wedi casglu dros £200,000 trwy adfer trethi.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi ar rai achosion anodd a chymhleth. O ganlyniad, rydym yn gweld rhai ohonynt yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gweithio eu ffordd drwy'r broses apelio. Rydym yn falch o gydweithio'n gynhyrchiol â'n Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi, hyd yn oed pan nad ydym yn cytuno ar y swm cywir o dreth, er mwyn mynd drwy'r prosesau cyfreithlon i ddatrys hyn. Mae hyn yn rhan o'n hymroddiad ni i 'Ein Dull': Cydweithio, Cadarnhau a Chywiro.

Pan fyddwn eisiau gweithredu newidiadau, rydym wedi gweithio gyda Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi er mwyn deall yr effaith ar eu busnesau. Enghraifft o hyn yw pan oeddem am newid ein hysbysiad Colled wrth Danio (LOI). Roeddem ni'n awyddus i Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi anfon samplau a gymerwyd ar gyfer profion LOI i labordy o fewn 3 diwrnod gwaith, gan sicrhau bod canlyniadau'r profion yn cael eu derbyn gan y labordy o fewn 14 diwrnod i gasglu'r sampl. Pe na wneir hyn, byddai'n cael ei ystyried fel prawf a fethwyd oni bai bod gan y Gweithredwr Safleoedd Tirlenwi esgus rhesymol.

Trwy gasglu adborth gan ein Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi, fe ddysgon ni y byddai'n anodd iawn iddynt fodloni'r gofyniad hwn gan nad oes ganddynt reolaeth dros ba bryd y mae'r canlyniadau'n cael eu derbyn. Fe wnaethon ni wrando ar ein Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi ac ni wnaethom fwrw ymlaen â'r newidiadau.

Eleni, gwnaethom gynnydd sylweddol gyda'n gwaith ar gyfradd TGT ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi. Gwarediadau heb eu hawdurdodi yw pan fo gwastraff yn cael ei ddodi y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig yn anghyfreithlon. Trwy broses profi a dysgu rydym wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i:

- ddatblygu polisïau ac atgyfeirio achosion
- cyhoeddi hysbysiadau rhagarweiniol
- cynnal ymchwiliadau manwl

Rydym wedi canolbwyntio ar yr achosion sy'n achosi'r niwed amgylcheddol mwyaf neu'r rhai sy'n tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon. Rydym wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

codi'r gyfradd TGT ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi yn llwyddiannus mewn 2 achos eleni. Mae hon yn garreg filltir bwysig yn ein gwaith.

Yn dilyn hyn, byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau a'n polisïau fel rhan o'r broses profi a dysgu a byddwn yn ymchwilio rhagor o achosion. Trwy ddechrau codi’r gyfradd hon y flwyddyn nesaf, byddwn yn newid ymddygiad ac yn creu system dreth decach i drethdalwyr.

## Awtomatiaeth

Mae'n bwysig bod y ffordd rydym yn gwneud pethau a’r ffordd rydym yn gweithio gyda threthdalwyr ac asiantau yn cynnig gwerth am arian. Mae'r ffocws y mae 'Ein Dull' yn ei roi ar liniaru yn enghraifft wych o sut rydym yn cefnogi pobl i fod yn gywir ac yn gwella effeithlonrwydd ar gyfer pawb. Mae ein mesur ar awtomeiddio hefyd yn bwysig yma.

Rydym yn mesur awtomeiddio yn ôl nifer y trafodiadau a dderbynnir yn ddigidol, a delir yn electronig, gyda'r taliad yn cael ei baru â’r trafodiad yn awtomatig gan ein systemau. Mae dros 92% o'n trafodiadau wedi bodloni'r meini prawf hyn eleni. Mae hwn yn fesur pwysig i ni oherwydd ei fod yn gwella effeithlonrwydd i ni, i’n trethdalwyr ac i asiantau.

Prif achos y gwelliannau a wnaed o ran awtomeiddio dros y blynyddoedd diwethaf yw’r gostyngiad mewn trafodiadau a delir gyda sieciau ers COVID-19. Ers Chwefror 2023, rydym wedi rhoi'r gorau i dderbyn taliadau siec yn gyfan gwbl. Mae'n debyg ein bod wedi gwneud yr holl enillion sy’n ymarferol bosibl o ran ffeilio a thalu yn ddigidol. Bydd angen gwelliannau pellach i'n prosesau talu presennol, gan gynnwys newidiadau i baru taliadau’n awtomatig, er mwyn cyrraedd ein targed cyffredinol o 95% neu uwch ar gyfer y mesur hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adborth ar ein gwasanaethau

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf, wedi'i asesu gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch sydd â datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i dreth lwfans oes a allai fod yn ddyledus pan fydd pensiwn cymerir budd-daliadau.

### Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Datgeliad cyflog teg

Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad.

Mae'n rhaid i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a chwartel isaf, canolrif, a chwartel uchaf chydnabyddiaeth ariannol gweithlu'r sefydliad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad heb ei gydgrynhoi, a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod pensiynau. Ni thalodd ACC unrhyw dâl neu fonysau a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2022 i 2023 na 2021 i 2022.

Band cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr a enillodd y cyflog uchaf yn ACC yn y flwyddyn ariannol 2022 i 2023 oedd £100,000-105,000 (2021-2022: £100,000-105,000). Roedd hyn 2.3 gwaith yn uwch na chydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £43,660 (2021 i 2022: £40,100). Gan ddefnyddio pwynt canol yr ystod gyflog wedi'i fandio ar gyfer y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf, nid oedd cynnydd yng nghyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf.

Cynyddodd cyflog cyfartalog y sefydliad gan 0.5%.

Rhwng 2022 a 2023 a 2021 i 2022, ni dderbyniodd unrhyw staff gydnabyddiaeth ariannol uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd y tâl yn amrywio o £23,880 i £102,500 (pwynt canol band) (2021 i 2022: £21,300 i £102,500 (pwynt canol band)).

## Cydnabyddiaeth ariannol staff chwartel isaf, canolrif, a chwartel uchaf

| Blwyddyn | Cyflog 25ain canradd | Cymhareb gyflog 25ain canradd | Cyflog canolrifol | Cymhareb gyflog canolrifol | Cyflog 75ain canrad | Cymhareb gyflog 75ain canradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | 30,610 | 3.3:1 | 43,660 | 2.3:1 | 63,900 | 1.6:1 |
| 2021-22 | 29,430 | 3.5:1 | 40,100 | 2.6:1 | 57,190 | 1.8:1 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Costau pobl

| 2022-23 £000 | 2022-23 £000 | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff contract ac asiantaeth | Cyfanswm | Cyfanswm | |
| | Cyflogau | 3,627 | 76 | 3,703 | 3,305 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 421 | 7 | 428 | 347 | |
| **Costau pensiwn eraill** | 1,008 | 18 | 1,026 | 884 | |
| **Cyfanswm** | 5,056 | 101 | 5,157 | 4,536 | |

Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

Mae’r rhai a gyflogir yn barhaol yn y tabl hwn yn cynnwys pobl sydd ar fenthyg i ni gan gyflogwyr eraill y Gwasanaeth Sifil, ond sy'n dal i gael eu cyflogi'n barhaol gan eu cyflogwyr Gwasanaeth Sifil.

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflogau gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau neu daliadau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cynllun pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir, ac felly ni all yr Awdurdod nodi'r gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol a berthyn iddo. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2016.

Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau **Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil**.

Ar gyfer 2022 i 23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £934,928 yn daladwy i'r PCSPS (2021 i 2022: £878,107) ar 1 o 4 cyfradd o fewn yr ystod 26.6-30.3% (yn 2022 i 2023 a 2021 i 2022) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob 4 blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phan fydd costau'n digwydd mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad y cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, neu bensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £6,665 (2021 i 2022: £6,298) i 1 neu fwy o'r panel o 3 darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio rhwng 8 - 14.75% (yn 2022 i 2023 ac yn 2021 i 2022) o dâl pensiynadwy. Yn ogystal, mae 0.5% o dâl pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gan gyflogeion hyd at 3 % o dâl pensiynadwy.

Nid oedd unrhyw un (naill ai yn 2022 i 2023 nac yn 2021 i 2022) wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; felly, roedd cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn ddim.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### SCS yn ôl band cyflog

## Nifer yr aelodau SCS yn ôl band cyflog

| Band cyflog | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| SCS 2 | 1 | 1 |
| SCS 1 | 2 | 3 |

Nid oes gan ein sefydliad unrhyw swyddi ar raddau SCS3 neu SCS4.

### Nifer y bobl a gyflogir

## Personau a gyflogir (gan gynnwys SCS) - cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar gyfartaledd

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| **Staff parhaol** | 76 | 67 |
| **Staff ar fenthyg** | 3 | 3 |
| **Staff cyfnod penodol** | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **81** | **73** |

Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd pobl cyfnod penodol yn cynnwys rolau fel cyflenwi ar gyfer pobl bresennol oherwydd absenoldeb rhiant neu amser arall o'r gwaith, neu pan mai dim ond dros dro yr oedd angen y rôl.

Yn ogystal â phobl gyflogedig fel yr uchod, y CALI ar gyfer pobl asiantaeth oedd:

## Staff asiantaeth - cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (CALI)

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| **Staff asiantaeth** | 0 | 1 |

### Cyfansoddiad pobl

Gan ein bod wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion triniaeth gyfartal, rydym yn:

- cadw ac adolygu gwybodaeth cydraddoldeb ein pobl er mwyn llywio ein penderfyniadau
- gweithredu polisïau i sicrhau triniaeth gyfartal ac rydym yn ystyried yr effaith ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion wedi'u diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft, anabledd, oedran, a rhyw)
- sicrhau bod ein Bwrdd a'n Tîm Arwain yn goruchwylio cydraddoldeb
- cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb ym mis Mawrth 2023, sy'n ymdrin â'r cyfnod 2021 i 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Personau a gyflogir yn ôl rhywedd

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion |
| **SCS** | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Pobl eraill** | 45 | 39 | 44 | 31 |

Roedd y pethau a wnaethom i hyrwyddo triniaeth gyfartal yn cynnwys:

- Achrediad cyflogwr Cyflog Byw
- hyrwyddo ein hymrwymiad 'Hapus i Drafod Gweithio Hyblyg' ar ein tudalennau recriwtio, gan hysbysebu pob rôl fel rhai sydd ar gael yn hyblyg
- Statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd
- cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol rôl
- ceisiadau recriwtio sy'n 'cuddio enwau' i ddileu cyfeiriadau at fanylion personol ac enwau sefydliadau addysgol
- gofyn i bob ymgeisydd a ydynt angen addasiadau neu ddewisiadau amgen yn ystod unrhyw broses recriwtio
- paneli recriwtio â chymysgedd rhywedd sydd i gyd wedi cwblhau hyfforddiant
- hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i'r holl staff
- darparu gwasanaethau Rhaglen Iechyd Galwedigaethol a Chymorth i Weithwyr i bobl sy'n mynd yn sâl
- Grŵp Llesiant gweithredol i gefnogi'r Strategaeth Lesiant, gan drefnu ystod eang o ddigwyddiadau llesiant i'n pobl
- darparu gliniaduron i'n holl bobl er mwyn caniatáu iddynt weithio gartref
- Asesiadau offer sgrin arddangos (DSE) ar gyfer ein holl bobl er mwyn nodi unrhyw addasiadau ac offer sydd eu hangen i weithio gartref yn ddiogel yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ystod y cyfnodau clo
- absenoldeb arbennig i weithwyr sy’n ofalwyr neu’n rhieni ac yn wynebu aflonyddwch oherwydd COVID-19.

## Absenoldeb oherwydd salwch

Caiff ffigurau absenoldeb oherwydd salwch eu mynegi fel arfer fel Dyddiau Gwaith a Gollwyd yn Flynyddol (AWDL):

**AWDL fesul blwyddyn staff** = cyfanswm nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn ystod y flwyddyn / cyfanswm nifer y blynyddoedd staff posibl.

Mae hyn yn well cynrychiolaeth o'r diwrnodau a gollir yn wirioneddol o gymharu â ffyrdd eraill o gyfrifo AWDL, am nad yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, a gwyliau braint. Mae defnyddio cyfanswm blynyddoedd hefyd yn rhoi ystyriaeth gywir i bobl ran-amser, ymgeiswyr newydd, a'r rhai sy'n gadael.

Er enghraifft, byddai rhywun sy'n gweithio hanner yr oriau llawn amser mewn wythnos yn cael blwyddyn o 0.5.

Roedd lefel ein habsenoldeb salwch yn 5.88 AWDL ar gyfer 2022 i 2023. Mae hyn yn llawer is na'r ffigwr Gwasanaeth Sifil diweddaraf sydd ar gael, sef 7.9 AWDL ar gyfer 2021 i 2022.

## Trosiant

Cyfrifir ffigurau trosiant yn y Gwasanaeth Sifil mewn 2 ffordd:

- **Trosiant** = staff sy’n gadael y Gwasanaeth Sifil yn ei gyfanrwydd
- **Trosiant adrannol** = staff sy'n gadael y Gwasanaeth Sifil neu gyflogwr penodol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfrifir y ffigur trosiant trwy rannu nifer y rhai sy'n gadael â chyfartaledd y bobl sydd mewn swydd.

Yn 2022 i 2023, roedd y trosiant yn 0.01% a’r trosiant adrannol yn 0.02%.

Roedd y rhan fwyaf o'r trosiant yn ymwneud â’r rhai a oedd yn ymuno â chyflogwyr eraill o fewn y gwasanaeth sifil, yn aml oherwydd dyrchafiad, yn ogystal â symudiadau ochrol, benthyciadau i adrannau eraill, a chontractau cyfnod penodol yn dod i ben.

## Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil

Arolwg ymgysylltu â chyflogeion trawslywodraethol yw Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Bob blwyddyn, mae tua 300,000 o weision sifil o dros 100 o sefydliadau yn cymryd rhan.

Mae'n defnyddio Mynegai Ymgysylltu sy'n gyfartaledd o'r ymatebion i'r 5 cwestiwn hyn sy'n ddangosyddion cryf o ymgysylltiad gweithwyr:

- Rwy’n falch o ddweud wrth bobl fy mod yn rhan o ACC
- Byddwn yn argymell ACC fel lle gwych i weithio
- Mae gen i ymlyniad personol cryf i ACC
- mae ACC yn fy ysbrydoli i wneud fy ngorau yn fy swydd
- mae ACC yn fy ysbrydoli i'w helpu i gyflawni ei amcanion

Gall y canlyniadau amrywio o 0% i 100%. Mae sgôr o 0% yn golygu fod yr holl ymatebwyr wedi rhoi sgôr o ‘anghytuno'n gryf’ i bob un o'r 5 cwestiwn. Mae sgôr o 100% yn golygu fod yr holl ymatebwyr wedi rhoi sgôr o ‘gytuno'n gryf’ i bob un o'r 5 cwestiwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ACC

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| **Mynegai ymgysylltu** | 77% | 78% |

Mae ein sgoriau ni yn dangos lefel uchel o ymgysylltiad â chyflogeion ac maent yn sylweddol uwch na chanolrif y Gwasanaeth Sifil o 65% yn 2022 a 66% yn 2021.

Roeddem yn y **3** uchaf o ran sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr yn 2022.

Mae ein canlyniadau llawn ar gyfer pob blwyddyn i'w gweld ar ein gwefan: **Arolwg Pobl ACC.**

### Costau ymgynghori

## Costau ymgynghori yn ystod y cyfnod

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| **Costau ymgynghori** | 317 | 155 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pan fo angen sgiliau arbenigol, caiff y gwaith hwn ei wneud naill ai gan unigolion arbenigol neu dimau o sefydliadau ymgynghori.

Bu cynnydd yn y defnydd o sefydliadau ymgynghori arbenigol yn 2022 i 2023. Roedd hyn oherwydd bod prosiect a ddechreuodd yn 2020 i 2021 wedi parhau i 2022 i 2023. Roedd y prosiect yn edrych ar y potensial i ni gefnogi'r gwaith o ddatblygu trethi eiddo sy’n amrywio yn ddaearyddol yn y dyfodol, gan ddefnyddio dull platfform data. Roedd costau ymgynghori eraill ar gyfer sgiliau arbenigol mewn seiberddiogelwch, gwasanaethau rhwydwaith a dadansoddiad o'n diwylliant corfforaethol.

## Datgeliadau oddi ar y gyflogres

Mae trefniadau oddi ar y gyflogres yn gymwys i unigolion sydd naill ai'n hunangyflogedig, yn gweithredu trwy gyfryngwr neu gwmni gwasanaeth yn hytrach na chael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym ni. O 6 Ebrill 2017, arweiniodd diwygiadau i’r ddeddfwriaeth (a elwir yn IR35) at newid y rheolau ar gyfer pobl oddi ar y gyflogres sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Symudwyd y rhwymedigaeth i benderfynu ar statws treth o’r contractwr i'r cyflogwr.

Mae pob ymgysylltiad oddi ar y gyflogres wedi bod yn destun asesiad IR35 er mwyn pennu natur y trefniadau gweithio ac i sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â rheoliadau treth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymrwymiadau gweithwyr cyflog uchel oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, a oedd yn ennill £245 neu fwy y dydd

| | |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres yn ôl eu hamser gyda ni** | **2** |
| **O'r rhain:** | |
| **Nifer am lai na 1 flwyddyn** | **0** |
| **Nifer rhwng 1 a 2 flynedd** | **0** |
| **Nifer rhwng 2 a 3 blynedd** | **0** |
| **Nifer rhwng 3 a 4 blynedd** | **1** |
| **Nifer am 4 blynedd neu fwy** | **1** |

| | |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a ymgysylltwyd â hwy yn ystod y flwyddyn** | 0 |
| **O'r rhain:** | |
| **Nifer a aseswyd nad oeddent yn ddarostyngedig i deddfwriaeth oddi ar y gyflogres** | 0 |
| **Nifer a aseswyd eu bod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac a benderfynwyd eu bod o fewn cwmpas IR35** | 0 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| | |
|---|---|
| **Nifer a aseswyd eu bod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac a benderfynwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35** | 0 |
| **Nifer a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn** | 0 |
| **Nifer a welodd newid statws IR35** | 0 |

## Unrhyw swyddi oddi ar y gyflogres i aelodau Bwrdd ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol

| | |
|---|---|
| **Unrhyw swyddi oddi ar y gyflogres i aelodau Bwrdd ac/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol** | 0 |
| **Nifer yr aelodau Bwrdd ac/neu uwch swyddogion sydd ar, ac oddi ar, y gyflogres ac sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol** | 11 |

### Cynllun y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u cyfrif:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Nifer y diswyddiadau a'r ymadawiadau cytunedig eraill yn ystod 2022 i 2023 a 2021 i 2022 oedd dim

| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2022-23 | 2022-23 | 2021-22 |
| <£10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10-000 - £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 - £50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £50,000 -£100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 - £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

Telir costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS) o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Pe byddwn yn cytuno i ymddeoliadau cynnar, ni fydd yn talu’r costau ychwanegol yn hytrach na chynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol oherwydd afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

**Dyfed Alsop**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**13 Medi 2023**

# Adroddiad archwilio – Cyfrifon adnoddau

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan  Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi’i gymhwyso wrth baratoi’r datganiadau ariannol yw'r gyfraith gymwys a’r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol sydd wedi’u mabwysiadu yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyfrif Adnoddau Awdurdod Cyllid Cymru ar 31 Mawrth 2022] ac o'i gostau gweithredu netam y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi’u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â  chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau’r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o’rcorff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i’r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a’m hadroddiad archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

arall a heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu yn ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall honno wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Adroddiad Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethiant.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi amdanynt os, yn fy marn i y mae'r canlynol yn berthnasol:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu os na chafwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan Gweinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadion eraill;
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

- Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol.
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;

- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae’r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy’n angenrheidiol er mwyn galluogi’r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu’r Awdurdod Cyllid Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai fod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Awdurdod Cyllid Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio’r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p‘un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo’n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os yn unigol neu gyda’i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, yr achwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Cyllid Cymru ynghylch y canlynol:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll a ph'n a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, postio dyddlyfrau ariannol anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdodaeth Awdurdod Cyllid Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Cyllid Cymru
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ariannol ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol;

Fe wnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Awdurdod Cyllid Cymru a natur, amseriad a graddau’r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Cwr y Ddinasf
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

**13 Medi 2023**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Awdurdod Cyllid Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Awdurdod Cyllid Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyfrifon adnoddau

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff** | 2 | 5,157 | 4,536 |
| **Costau eraill sy'n gysylltiedig â staff** | 2 | 113 | 82 |
| **Costau gweithredu eraill** | 2 | 1,574 | 1,440 |
| **Dibrisiant** | 3.1 | 45 | 31 |
| **Amorteiddiad** | 3.2 | 56 | 63 |
| **Gwariant gweithredu net** | | **6,945** | **6,152** |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **6,945** | **6,152** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Datganiad o Sefyllfa Ariannol

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Peiriannau ac Offer | 3.1 | 164 | 94 |
| Asedau anniriaethol | 3.2 | 27 | 83 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **191** | **177** |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig arall | 4 | 104 | 116 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 5 | 966 | 868 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,070** | **984** |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 6 | (894) | (909) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(894)** | **(909)** |
| Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu’r rhwymedigaethau cyfredol | | **367** | **252** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| **Cronfa gyffredinol** | | 367 | 252 |

**Dyfed Alsop**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
**13 Medi 2023**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Datganiad o Lifau Arian Parod

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn rhai arian parod** | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Gwariant gweithredu net | | (6,945) | (6,152) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (12) | (4) |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | | (15) | 45 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 3.1, 3.2 | 101 | 94 |
| **Arian parod net (all-lif) sy'n deillio o weithgareddau gweithredu** | | **(6,847)** | **(6,017)** |
| Ychwanegu peiriannau ac offer | 3.1 | (115) | (56) |
| Ychwanegu asedau anniriaethol | 3.2 | 0 | (9) |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn rhai arian parod** | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| **Arian parod net (all-lif) sy’n deillio o weithgareddau buddsoddi** | | **(115)** | **(65)** |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 7,060 | 6,291 |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | 5 | **98** | **209** |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 5 | **868** | **659** |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 5 | **966** | **868** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

| | Cronfa Gyffredinol £000 |
|---|---|
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2021-22** | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2022-23** | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **113** |
| **Cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru** | 6,226 |
| **Cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru** | 65 |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | (6,152) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **252** |
| **Cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru** | 6,941 |
| **Cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru** | 119 |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | (6,945) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **367** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Nodiadau i'r cyfrifon Adnoddau

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon hyn yn unol â:

- chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol ag Adran 29 (1) (b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM
- y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus
- y polisïau cyfrifo y manylir arnynt yn y nodiadau dilynol

Mae ACC wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn effeithiol eto. Ni ddisgwylir y bydd y rhain yn cael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

Mae'r wybodaeth ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ac yn y nodiadau wedi'i thalgrynnu i'r £000 agosaf.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu yn ôl gofynion y safonau cyfrifyddu perthnasol ac yn amodol ar ddehongliadau ac addasiadau safonau’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Cyfrifwyd am wariant ar sail croniadau. Mae cyfrifyddu ar gyfer cyllid wedi'i nodi yn AP1.7.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 1.3 Busnes Gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail "busnes gweithredol" gan fod ACC yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru ac yn derbyn ei gyllid refeniw ganddynt i fodloni ei rwymedigaethau. Mae ACC yn disgwyl y bydd yn parhau i fodoli hyd y gellir rhagweld.

## 1.4 Defnyddio Dyfarniadau

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi gwneud dyfarniadau sy'n effeithio ar gymhwysiad y polisïau cyfrifyddu a'r symiau o asedau, atebolrwydd a threuliau a adroddir arnynt. Gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn a chânt eu cydnabod yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth am y dyfarniadau a wnaed wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu sy'n cael yr effeithiau mwyaf sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol wedi'u cynnwys yn y canlynol:

Nid oes unrhyw asedau ‘hawl i ddefnyddio’ yn bodoli o fewn ACC. Y Gweinidog yn unig sy'n cyfarwyddo'r gofod swyddfa a ddyrennir i ACC i'w ddefnyddio.

## 1.5 Cronni Gwyliau Blynyddol

Caiff croniadau gwyliau blynyddol Staff eu cyfrif o fewn costau staff eraill. Dim ond y symudiad yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi. Mae'r croniad yn gyfrifiad sy’n adlewyrchu'r gwyliau blynyddol sy'n ddyledus neu sy'n ddyledus i staff ar ddiwedd y flwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 1.6 Treth Ar Werth (TAW)

Mae ACC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac mae'n adennill rhai elfennau o TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Caiff gwariant nwyddau a gwasanaethau eraill ei gofnodi yn cynnwys TAW yn unol â llawlyfr TAW llywodraeth fewnol CThEM.

## 1.7 Cyllid

Mae ACC yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn ddyraniad grant) i ariannu ei wariant refeniw a chyfalaf. Yn unol â'r FReM, cofnodir y symiau hyn fel cyllid yn hytrach nag incwm ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r FReM hefyd yn cadarnhau y dylid cyfrif am y cyllid hwn ar sail arian parod ac rydym wedi cydymffurfio â hyn.

## 1.8 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Dim ond y balansau sydd gan ACC gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a gynhwysir yn Arian parod a chyfwerth ag arian parod.

## 1.9 Adrodd segmentau

Mae Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 8 yn ei gwneud yn ofynnol i endidau ddatgelu gwybodaeth am eu segmentau gweithredu a'u hardaloedd daearyddol. Mae'r Awdurdod yn gweithredu mewn un segment ac yng Nghymru yn unig. Felly, ni ystyrir bod angen unrhyw adroddiadau ychwanegol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 1.10 Lesau

Ar gyfer 2022/23, nid yw ACC yn rhan o unrhyw drefniadau les fel prydleswr neu lesddeiliad o dan IFRS 16.

## 1.11 Offerynnau ariannol

Mae offeryn ariannol yn gontract sy'n arwain at greu ased ariannol mewn un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Mae IFRS 7, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Gan fod ACC yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yr unig offerynnau ariannol yn y cyfrifon yw asedau ariannol ar ffurf symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill a rhwymedigaethau ariannol ar ffurf symiau masnach a symiau taladwy eraill. Ni ystyrir bod ACC yn agored i unrhyw lefel sylweddol o risg o ran credyd, hylifedd na chyfradd llog.

## 1.12 Asedau Anghyfredol

### Cyfarpar

Caiff cyfarpar ei gario ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg yr asedau hyn.

Mae'r holl gyfarpar a brynwyd yn uniongyrchol gan ACC ac a oedd yn costio £5,000 neu fwy wedi'i gyfalafu.

Darperir ar gyfer dibrisiant yn y mis ar ôl caffael ac fe'i cyfrifir er mwyn dileu'r gwerth ar ôl tynnu'r gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, mewn rhannau cyfartal

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel y dangosir isod.

## Expected useful life of equipment

| Categori offer | Oes ddefnyddiol ddisgwyliedig |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau | 10 mlynedd |
| Cyfarpar TGCh | 3 i 5 blynedd |
| Cyfarpar Arall | 5 mlynedd |

**Asedau Anniriaethol**

Gan nad oes marchnad weithredol yn bodoli oherwydd eu natur benodol, caiff asedau anniriaethol eu datgan ar gostau hanesyddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth, dros yr oes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu dymor y drwydded. Darperir ar gyfer amorteiddio yn y mis ar ôl i'r ased gael ei gaffael fel y nodir isod.

## Oes ddefnyddiol disgwyliedig asedau anniriaethol

| Categori o Ased Anniriaethol | Oes ddefnyddiol amcangyfrifedig |
|---|---|
| Trwyddedau a meddalwedd | 3 blynedd |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 2. Gwariant

## Gwariant yn ystod y cyfnod

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| **Staff a chostau cysylltiedig** | | |
| **Costau eraill sy'n gysylltiedig â staff** | | |
| **Costau gweithredu eraill** | | |
| **Cyflogau** | 3,703 | 3,232 |
| **Costau pensiynau** | 1,026 | 884 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | 428 | 347 |
| **Costau asiantaeth** | 0 | 73 |
| | **5,157** | **4,536** |
| **Hyfforddi a datblygu** | 89 | 82 |
| **Teithio a chynhaliaeth** | 18 | 4 |
| **Treuliau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogeion** [1] | 6 | (4)[1] |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2022-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| **Staff a chostau cysylltiedig** | | |
| **Costau eraill sy'n gysylltiedig â staff** | | |
| **Costau gweithredu eraill** | | |
| | **113** | **82** |
| **Gweinyddu a chostau swyddfa eraill** | 74 | 61 |
| **Costau'r Bwrdd a chostau cysylltiedig** | 69 | 42 |
| **Ffi archwilio allanol** | 34 | 31 |
| **Costau sy'n gysylltiedig â TGCh** | 1,111 | 987 |
| **Ffi archwilio mewnol** | 14 | 16 |
| **Costau proffesiynol eraill** | 272 | 303 |
| | **1,574** | **1,440** |
| **Amorteiddiad a Dibrisiant** | 101 | 94 |
| **Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **6,945** | **6,152** |

Mae dadansoddiad pellach o gostau staff a chostau cysylltiedig i'w gael yn yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
